eiriolaeth
advocacy

Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

*Mehefin 2017 Rhifyn 5*

## *Helpu Comisiynwyr a Darparwyr i fynd i'r afael ag anghenion datblygu*

Mae Comisiynwyr yng Nghymru'n dechrau gweithredu eu dyletswydd strategol newydd i gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth. Mae darparwyr ar fin ymateb i'r amgylchedd comisiynu newydd. Bu tîm y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (RhEEE) wrthi'n cynnal gwerthusiad gwaelodlin o barodrwydd comisiynwyr a darparwyr i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Un prif reswm dros gynnal yr arolwg gwaelodlin yw helpu RhEEE i ganfod y ffordd orau i helpu comisiynwyr a darparwyr i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o dan y Ddeddf.

**Canlyniadau cyntaf y gwerthuso**

Daeth canlyniadau cyntaf yr arolwg gwaelodlin i law ac amlygir rhai prif themau.

**Comisiynwyr**

Awgryma'r canlyniadau cyntaf taw'r cam dadansoddi'r cylch comisiynu sydd angen i ddatblygu fwyaf, yn arbennig o ran casglu a dadansoddi data er mwyn deall beth fydd y galw am wasanaethau eiriolaeth o dan y Ddeddf yn y dyfodol, a chael trefn systematig ymwneud â phobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaethau hyn wrth gasglu'r data. Mae hyn i'w ddisgwyl, oherwydd dyma'r tro cyntaf y gwnaethpwyd Asesiad o'r Boblogaeth. Chwaith, nid bwriad yr asesiad oedd cynhyrchu data i'r lefel angenrheidiol i allu dadansoddi anghenion lleol yn drwyadl.

Y cam nesaf sydd angen ei ddatblygu fwyaf yw cynllunio, o ran datblygu strategaeth ysgrifenedig glir a chanlyniadau y cytunwyd arnynt sy'n arwydd o fwriadau comisiynu at y dyfodol.

Roedd comisiynwyr yn fwy hyderus am eu galluoedd yn ystod y cam gwneud, ond nodwyd fod angen datblygu gwasanaethau eiriolaeth i ddiwallu anghenion lleol yn hytrach na dilyn y drefn hanesyddol o ddyfarnu cytundebau.

Roedd comisiynwyr yn fwyaf hyderus am eu gallu i adolygu gwasanaethau'n effeithiol. Roedd hyn yn gyson gyda thrafodaethau tîm RhEEE gyda chomisiynwyr unigol.

I'w barhau...

**Darparwyr**

Cynhaliodd RhEEE arolwg tebyg ond gwahanol i ddarparwyr. Awgryma'r canlyniadau cyntaf taw'r prif feysydd i'w datblygu hefyd yw camau dadansoddi a chynllunio y cylch comisiynu.

Amlyga gwaith dadansoddi pellach gan ddarparwyr o fewn y camau hynny, taw'r meysydd mwyaf cyffredin i'w datblygu ar hyn o bryd yw cyfathrebu gwell a chyd-gynhyrchu gyda chomisiynwyr. Mae hyn yn gyson â'r adborth gafwyd gan ddarparwyr yng nghyfarfodydd tîm RhEEE.

**Rhannu gwybodaeth a phrofiad**

Hyd yn oed lle'r awgrymai ciplun cyffredinol o'r cylch comisiynu fod angen gwella'n gyfangwbl, roedd comisiynwyr unigol wedi rhoi sgôr 'digon da' neu 'da' i'w hunain yn erbyn cwestiynau penodol. Dywedodd pobl eraill fod gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar fynd i'r afael â rhai o'r materion a sgoriwyd yn isel. Mae hyn yn galonogol, gan ei fod dangos fod yna gyfle i annog cydweithio mewn dysgu a chefnogi.

Gyda hyn mewn golwg, casglodd y tîm RhEEE a Rhaglen Welliant Gydweithredol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru gomisiynwyr ledled y gogledd at ei gilydd i weithdy yn Llanelwy ar 24 Mawrth 2017 i drafod y canlyniadau dienw, cyfanredol ar draws y rhanbarth. Y nod oedd rhannu gwybodaeth a phrofiad a chyd-drafod y ffordd ymlaen. Roedd yr adborth yn gadarnhaol a dywedodd cyfranogwyr eu bod bellach yn teimlo'n rhan o rwydwaith cymheiriaid cefnogol a fyddai'n eu helpu yn y dyfodol.

**Mesur cynnydd o'r gwaelodlin – y Matrics Aeddfedrwydd**

Mae'n debygol y bydd gwedd wahanol ar gylch cyntaf comisiynu gwasanaethau eiriolaeth o dan y ddeddfwriaeth newydd i'r cylch comisiynu nesaf ymhen rhai blynyddoedd, gan fod y drefn yn esblygu yn sgil y gwersi a ddysgwyd. Bydd RhEEE yn cyd-weithio â chomisiynwyr ar Fatrics Aeddfedrwydd, i helpu comisiynwyr i ddeall:

- beth yw comisiynu gwasanaethau eiriolaeth mewn modd effeithiol a chynaliadwy;
- beth yw'r dull mwyaf effeithiol i gomisiynwyr rhyddhau eu hunain o'u dyletswydd statudol i gomisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol;
- sut mae mesur eu cynnydd yn datblygu eu heffeithiolrwydd ymhen amser.

Bydd y Matrics Aeddfedrwydd yn galluogi comisiynwyr i hunanasesu yn erbyn camau datblygu disgwyliedig: Datblygol, aeddfedu neu sefydledig—fel comisiynydd gwasanaethau eiriolaeth effeithiol. Bydd hefyd yn eu helpu comisiynwyr i ddeall pa faterion y mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â nhw er mwyn gwneud cynnydd.

Bydd y tîm RhEEE yn cynnal gweithdy ar y Matrics Aeddfedrwydd i gomisiynwyr yng Ngogledd Cymru yn ystod yr haf. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Valerie.billingham@agecymru.org.uk os gwelwch yn dda.

**Valerie Billingham**

## *Marc Ansawdd Eiriolaeth*

Yn naturiol, mae sicrhau y darperir gwasanaethau o safon yn bwysig iawn i gomisiynwyr gwasanaethau eiriolaeth a darparwyr gwasanaethau. Yn y dyfodol, bydd Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA) yn wasanaeth wedi ei reoleiddio dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, y chwaer ddeddfwriaeth i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dywedodd Llywodraeth Cymru taw diben Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yw:

"Gosod ansawdd a gwella wrth galon y gyfundrefn reoleiddio ac yn cadarnhau trefniadau diogelu i'r rheini sydd eu hangen. Bydd rheoleiddio'n mynd ymhellach na chydymffurfiaeth a safonau gofynnol. Bydd yn canolbwyntio mwy ar ansawdd y gwasanaethau a'r effaith maen nhw'n ei chael ar y bobl sy'n eu derbyn. [1]"

**Beth am wasanaethau nad ydynt yn EBA?**

Yn 2008, datblygodd Action for Advocacy (A4A) Farc Ansawdd i wasanaethau eiriolaeth ar sail y Siarter Eiriolaeth "i ddarparu prawf Cenedlaethol cadarn o safon y ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol. [2]" Fe gomisiynodd yr Adran Iechyd y National Development Team for Inclusion (NDTi) i adolygu a chynnal y Marc Ansawdd yn 2013. Yn dilyn yr adolygiad, lansiwyd y 3ydd argraffiad a'r un cyfredol yn Ebrill 2014.

Y nod oedd y byddai'r Marc Ansawdd yn parhau'n "ddangosydd cadarn a dibynadwy o safon eiriolaeth annibynnol. [3]"

**Manteision y Marc Ansawdd?**

Yn ôl yr NDTi, manteision y Marc Ansawdd yw:

- galluogi darparwyr eiriolaeth annibynnol i ddangos a hyrwyddo eu hymrwymiad a'u gallu i ddarparu eiriolaeth o safon uchel
- Sicrhau comisiynwyr gwasanaethau eiriolaeth bod darparwyr y maent yn eu defnyddio wedi'u hasesu, er mwyn gofalu bod eu mudiadau'n gadarn ac yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o safon
- helpu mudiadau i adolygu, gwella a datblygu eu systemau, eu polisiau a'u harferion sefydliadol. [4]

Mae'n werth nodi fod y Marc Ansawdd ar gael a gellir ei addasu i bob math o ddarpariaeth eiriolaeth, gan gynnwys gwasanaethau Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ac Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol. Mae'n gweithio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ceir rhestr gyfredol o fudiadau sy'n dal y Marc Ansawdd yma.

**Ennill Marc Ansawdd**

Mae'r siart llif isod yn dangos sut mae ennill y Marc Ansawdd (yn yr ystyr ehangaf). Y pris a hysbysebir ar hyn o bryd i ennill y Marc Ansawdd yw £1800 (a TAW). Unwaith yr enillir y Marc Ansawdd, mae'n ddilys am 3 blynedd. Wedi hynny, ail-ymgeisir am y Marc Ansawdd (os oes angen).

Parhad...

**1 Cofrestru ar-lein**

Unwaith y byddwch chi'n mynegi diddordeb mewn ymgeisio am y Marc Ansawdd (MA), cewch eich gwahodd i gwblhau Cam 2.

**2 Cadarnhau'r Polisi a'r Broses**

Bydd sefydliadau'n cadarnhau, ar ffurflen electronig fod y polisïau, a'r gweithdrefnau a'r systemau angenrheidiol yn eu lle i ddechrau'r broses Asesiad MA. Yn unol â chwblhau'r cam hwn yn foddhaol, cewch eich gwahodd i ddechrau'r Asesiad Pen Desg a phennir Asesydd MA profiadol, wedi'i hyfforddi'n llawn ar eich cyfer.

**3 Asesiad Pen desg**

Bydd gan eich sefydliad chwe mis i gwblhau'r Llyfr Gwaith Asesiad a darparu gwybodaeth a chyflwyno tystiolaeth ar sut rydych yn bodloni'r safonau amrywiol gofynnol. Unwaith fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, anfonir eich Llyfr Gwaith at yr Asesydd MA i'w adolygu, gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani.

**4 Asesu'r safle**

Yn unol â chwblhau'r tri cham uchod yn foddhaol, bydd yr Asesydd Marc Ansawdd yn ymweld â'ch sefydliad ac yn cyfweld amryw o bobl gan gynnwys aelodau Bwrdd, staff, gwirfoddolwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau eiriolaeth. Bydd yr Asesydd yn adolygu ffeiliau achos eiriolaeth hefyd.

## Rheoleiddio a Marc Ansawdd?

Ar hyn o bryd, mae llawer o fanylebau gwasanaethau a gomisiynwyd yn gofyn i'r darparwr weithio tuag at Farc Ansawdd neu fod wedi ei ennill. Unwaith y gweithredir Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yn llawn, disgwylir cyflawni hyn yn ystod Ebrill 2019 ar hyn o bryd, bydd rhaid i'r gwasanaethau sy'n destun DRhAGC hefyd gael eu rheoleiddio. Cynhelir ymgynghoriadau yn ystod Gwanwyn 2018 i sefydlu'n union yr hyn fydd i'w ddisgwyl o wasanaethau EBA wedi'u rheoleiddio a pha safonau y byddant yn cadw atynt. Bydd y Marc Ansawdd yn parhau i alluogi darparwyr eiriolaeth ddangos sut maent yn darparu gwasanaethau o safon, gyda Deddf SSWW yn gofyn i Awdurdodau Lleol ystyried a chefnogi'r sector eiriolaeth yn ehangach, a sicrhau ei fod ar gael, yn arbennig ym maes gwasanaethau ataliol. Mae'r Marc Ansawdd yn offeryn pwysig o hyd yn y gwaith o werthuso safon y ddarpariaeth.

## Dim Marc Ansawdd?

Fodd bynnag, i rai mudiadau, gall ennill y Marc Ansawdd llawn fod yn broses gostus, sy'n dwyn llawer o adnoddau ac amser. Nid yw diffyg Marc Ansawdd o angenrheidrwydd yn awgrymu diffyg safon y gwasanaeth dan sylw. Gall gwasanaeth ddangos ei fod yn glynu ac yn gweithredu'n unol â'r Siarter Eiriolaeth a Chodau Ymarfer mewn sawl ffordd. Mae rhaglen gyflwyno glir, hyfforddi a datblygu parhaus, a rhaglen arolygu gadarn yn elfennau hanfodol o wasanaeth safonol. Felly hefyd gasglu adborth ansoddol a meintiol gan gleientiaid, a chynhyrchu astudiaethau achos fel tystiolaeth.

## Cyfeiriadau


1. Llywodraeth Cymru | Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)
2. Marc Ansawdd | Hanes y Marc Ansawdd
3. Marc Ansawdd | Hanes y Marc Ansawdd
4. Marc Ansawdd | Ennill y Wobr


**Huw Davies, Age Cymru**

## *Lefel 3 Diploma mewn Eiriolaeth*

Yn ddiweddar, dechreuodd Coleg Gŵyr Abertawe ddarparu Cymhwyster seiliedig ar waith City and Guilds, Lefel 3 Diploma mewn Eiriolaeth Annibynnol. Ariennir hyd at 70% o'r Diploma gan Sgiliau i Ddiwydiant sy'n sicrhau dewis fforddiadwy i gyflogwyr yn ardaloedd cymwys Cymru.

Dyma gyfle cyffrous i eiriolwyr yng Nghymru ennill cymhwyster gyda darparwr sy'n deall Rhan 10 (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Llywodraeth Cymru. Daw â gogwydd Cymreig i'r Cymhwyster a choledda ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Asesir y Cymhwyster yn y gweithle drwy arsylwadau, tystiolaethau tystion, astudiaethau achos a thystiolaeth seiliedig ar waith arall.  Mae Tiwtor/Asesydd o Goleg Gŵyr Abertawe yn rhoi cymorth ac arweiniad. Cynhelir cyfarfodydd misol o leiaf, ac mae cymorth tiwtoriaid ar gael i fyfyrwyr dros y ffôn neu mewn e-bost pe bai  angen cymorth arnynt.

Mae Diploma Lefel 3 mewn Eiriolaeth Annibynnol City and Guilds yn berffaith i ddysgwyr sy'n gweithio fel eiriolwyr annibynnol, er mwyn sicrhau proffesiynoli darparwyr gwasanaethau, gwella lles pobl drwy eiriolaeth yng Nghymru a chefnogi datblygu modelau cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth.

Cefnogir y prosiect Sgiliau ar gyfer Diwydiant gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru ac mae'r cyllid Sgiliau ar gyfer Diwydiant presennol ar gael tan Ragfyr 2018.  Ni ddylid anwybyddu'r arbedion i gyflogwyr ac mae'n bwysig eu bod yn manteisio ar y lleihad mewn costau.

*mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol.

Fel canllaw, bydd y costau fel a ganlyn;

| | | |
|---|---|---|
| Mudiad Bach | Llai na 50 Gweithiwr | Cyfanswm y Gost £300 |
| Mudiad Canolig | 50-250 Gweithiwr | Cyfanswm y Gost £400 |
| Mudiad Mawr | 500 Gweithiwr | Cyfanswm y Gost £500 |

Os yw unigolion sy'n byw tu allan i'r ardaloedd cydgyfeiriant cymwys am ennill y Diploma Lefel 3 mewn Eiriolaeth Annibynnol, gallwn ddarparu'r Cymhwyster ar gost i'w drafod.

Credaf gan ein bod wedi'i lleoli yng Nghymru ein bod yn deall anghenion dysgwyr Cymraeg yn well, a pha mor bwysig yw ehangu gwybodaeth, gwella sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr am Eiriolaeth a lles pobl Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Sharon H Cole
Tiwtor/Asesydd
Diploma mewn Eiriolaeth Annibynnol/Cyngor ac Arweiniad/Asesydd FfCCh
Coleg Gŵyr Abertawe
Hyfforddiant GCS

Symudol: 07342058614
Swyddfa: 01792 284376
E-bost: Sharon.Cole@gowercollegeswansea.ac.uk

## *Diweddariad – Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*

Ydych chi'n gwybod digon am Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016? Daeth Cam Cyntaf y Ddeddf yn gyfraith ar 3 Ebrill 2017, a bellach mae nifer o reoliadau a wnaed o dan y ddeddf mewn grym.

Darllenwch y dudalen ar Reoleiddio ar yr Hyb i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rheoliadau.

Nod y pecyn gwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth yw eich helpu i ddeall y Ddeddf a beth mae'n ei olygu i chi. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys fideo byr wedi ei animeiddio, sy'n esbonio'r newidiadau sy'n digwydd.

**Gwefan Cyngor Gofal Cymru**

## *Datganiad Ysgrifenedig - Lansio'r ymgynghoriad ar gam 2 roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith*

Mae'r ail gam o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol, a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n sefydlu cyfundrefn reoleiddiol sy'n gyson a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy amddiffyn hawliau dinasyddion Cymru i gael gofal diogel, priodol, gydag urddas. Mae hefyd yn cynnal gwelliannau drwy ehangu pwerau Cyngor Gofal Cymru sy'n cael ei alw yn Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn hyn, i gynnwys ysgogi, cefnogi a goruchwylio gwelliannau yn y sector.

Am fwy o wybodaeth, ewch at y ddolen isod:

Llywodraeth Cymru | Lansio ymgynghoriad cyfnod 2

**Gwefan Llywodraeth Cymru**

## *Mae awdurdodau a byrddau iechyd yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cynnydd yn nifer y ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid*

Mae adroddiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi canfod bod cynnydd yn nifer y ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid yn rhoi pwysau ar system sydd eisoes yn cael trafferth ymdopi.

Sefydlwyd y Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid yn 2009 ac maent yn berthnasol i bobl nad oes ganddynt y gallu i gydsynio i driniaeth neu ofal nail ai mewn ysbyty neu gartref gofal. Ni ellir eu defnyddio ond lle nad yw'n briodol cadw rhywun o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y seithfed adroddiad blynyddol am y ffordd mae'r Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid yng Nghymru yn cael eu gweithredu, yn cael bod y gwaith o ddarparu adnoddau ychwanegol ac arferion gweithredu gwell wedi cael effaith gyfyngedig yn unig ar wella'r ffordd mae'r system ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei gweithredu

Am fwy o wybodaeth, ewch at y ddolen isod os gwelwch yn dda:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | DoLS

**Gwefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

## *Lansio gwasanaeth diogelu newydd ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru i ddiwallu angenion mudiadau cymunedol bach a lleol*

Mae WCVA wedi derbyn cyllid i barhau a'i waith yn ystod cyfnod peilot y gwasanaeth newydd, i ddatblygu ymwneud y sector ac isadeiledd ar bob lefel o ddiogelu ymarfer.

**Bydd y gwasanaeth diogelu'n darparu**:

- gwasanaeth ymholiadau cenedlaethol a chymorth gydag ymholiadau diogelu cyffredinol a recriwtio'n ddiogel. Arweiniad ar wneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a'u defnydd, rhoi cymorth ar lywodraethu i ymddiriedolwyr,
- adnoddau dysgu ar-lein ar gyfer y sector, hyfforddiant ar ddiogelu sy'n mynd i'r afael â seiliau diogelu gwybodaeth ac ymarfer fel rhan o lywodraethu da yn gyffredinol
- rhwydwaith o Lysgenhadon Diogelu, sef cynrychiolaeth o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) sy'n gweithio dros eirioli, gwella gallu a medrusrwydd diogelu ledled y sector
- gwefan ac adnodd rhithwir adran Ddiogelu WCVA sy'n datblygu o hyd. Mae'n cynnwys newyddion, taflenni gwybodaeth, blogiau, cylchlythyron a mynediad i hyfforddiant.

Bydd grŵp cynghori sy'n cynnwys staff CGS, llysgenhadon, mudiadau ymbarél perthnasol ac arbenigwyr diogelu o sectorau a meysydd perthnasol eraill yn bwrw golwg dros y gwaith.

Am fwy o wybodaeth, ewch at eu gwefan: http://www.wcva-safeguarding.org.uk/

Gellir anfon ymholiadau ar bob mater diogelu mewn e-bost at: safeguarding@wcva.org.uk

**Gwefan WCVA**

## *Cyflwyniad i System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach (PQASSO) – gweithdy am ddim*

Mae WCVA yn cynnal gweithdai ar waith PQASSO.

- Bae Colwyn: 6 Mehefin 2017, 10:00am-12:00 canol dydd, Clwb Criced Bae Colwyn
- Caerfyrddin: 13 Mehefin 2017, 10:00am-12:00 canol dydd, CGGSG

Bydd y gweithdy'n cyflwyno Hanfodion PQASSO sef dull hunanasesu newydd, syml a fwriadwyd ar gyfer grwpiau a mudiadau trydydd sector.

**Pwy ddylai fynd?**
Rhywun â chanddo ddiddordeb yn datblygu a chefnogi mudiadau trydydd sector cadarn gan gynnwys ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr, cyllidwyr, comisiynwyr a rheolwyr cytundebau. Er mwyn dysgu mwy am PQASSO, ewch at wefan Cyngor Cenedlaethol y Mudiadau Gwirfoddol.

Os oes gennych gwestiynau neu os am archebu'ch lle, cysylltwch â **Heledd Kirkbride**, Swyddog PQASSO Cymru: heledd.kirkbride@ncvo.org.uk neu 07376 602320.

**PQASSO - safon ansawdd mudiadau trydydd sector**

Mae hi'n gynyddol bwysig i fudiadau trydydd sector yng Nghymru ddangos eu perfformiad, eu heffeithiolrwydd a'u heffaith i gyllidwyr, comisiynwyr, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill.

Mae PQASSO yn helpu mudiadau trydydd sector i edrych ar eu gwaith, i ganfod beth maent yn ei wneud yn dda, beth ellid ei wella a phenderfynu'n union pa welliannau sy'n angenrheidiol. Mae PQASSO yn ymdrin â phob agwedd ar waith mudiad gan gynnwys llywodraethu, cynllunio, arwain a rheoli, rheoli pobl a chyllid, creu canlyniadau ac effaith. Unwaith mae mudiad wedi gweithredu PQASSO gall ymgeisio am Farc Ansawdd PQASSO.

I' barhau...

Dyma achrediad allanol PQASSO sy'n dangos bod y mudiad wedi cyrraedd y safon ansawdd at lefel benodol.

**Peilot Hanfodion PQASSO**

Tra bod hyblygrwydd PQASSO yn golygu y gellir, ac y caiff ei ddefnyddio gan fudiadau trydydd sector o bob math a maint, gwyddom hefyd fod angen **i grwpiau a mudiadau bach trydydd sector** gymryd cam cyn **PQASSO,** i'w helpu i adolygu perfformiad eu grŵp neu fudiad a sut gall ddatblygu a chryfhau.

Bwriad Hanfodion PQASSO yw cyflawni hynny a helpu grwpiau a mudiadau trydydd sector bach

- nad ydynt erioed wedi cynnal adolygiad ar eu grŵp neu fudiad cyfan ond sydd am 'wirio eu hiechyd' a chanfod pa feysydd sydd angen eu datblygu a'u cryfhau
- sydd am ddechrau cyflwyno a gwreiddio ansawdd a gwelliant sy'n parhau yn eu gwaith
- sydd angen fframwaith i gefnogi datblygiad eu grŵp neu fudiad, ac
- sydd am weithio yn fwy effeithiol ac effeithlon

Dysgwch fwy am beilot PQASSO yma a chofrestrwch i gymryd rhan.

## *Digwyddiadau*

**Cynhadledd Flynyddol Cynghrair Henoed Cymru 2017**
6 Mehefin 2017, Future Inns, Bae Caerdydd

Ar ôl blwyddyn: Sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn effeithio ar fywydau pobl hŷn a swyddogaeth y trydydd sector.

Am fwy o wybodaeth, anfonwch neges e-bost at Coralie Merchant:

Coralie.merchant@agealliancewales.org.uk neu ffoniwch 02920 431547

**Cynhadledd BASW Cymru 2017**
7 Mehefin 2017, Future Inns, Bae Caerdydd

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 — ar ôl blwyddyn. Beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid?

Am fwy o wybodaeth, ewch at:

Cynhadledd BASW Cymru 2017

**Cynhadledd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2017**
28 a 29 Mehefin 2017, Venue Cymru, Llandudno

Bydd gan Raglen Eiriolaeth yr Edau Euraidd (RhEEE) stondin arddangos yng Nghynhadledd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2017 ar 28 a 29 Mehefin 2017 yn Venue Cymru, Llandudno eleni eto.

Galwch heibio er mwyn cyfarfod a chael sgwrs â'r tîm ar stondin arddangos 29 a dysgwch am waith Rhaglen Eiriolaeth yr Edau Euraidd.

Am fwy o wybodaeth am y gynhadledd, ewch at:

Cynhadledd ADSS 2017

**Lleisiau Canser Pobl Hŷn OPAAL UK - Digwyddiadau dysgu am Leisiau Canser Pobl Hŷn**

A ydych chi'n darparu eiriolaeth i bobl hŷn? A ydych yn gomisiynydd gwasanaethau eiriolaeth? A ydych chi'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac a oes gennych ddiddordeb mewn eiriolaeth i bobl hŷn sydd wedi'u heffeithio gan ganser?

I'w barhau...

Ymunwch â OPAAL a'i phartneriaid prosiect I-CANN, Beth Johnson Foundation, Help & Care and Dorset Advocacy yn un o'n digwyddiadau rhanbarthol.

| | | |
|---|---|---|
| York Priory Street Centre | 21 Gorffennaf | 11:30am – 4pm |
| Birmingham Carrs Lane | 24 Gorffennaf | 11:30am – 4pm |
| London Voluntary Action Islington | 27 Gorffennaf | 11:30am – 4pm |
| Manchester Friends Meeting House | 1 Awst | 11:30am – 4pm |

Mae OPAAL wedi datblygu amryw o adnoddau dylanwadol mewn partneriaeth â'u pedwar partner prosiect, ac wedi cyd-gynhyrchu ochr yn ochr â phobl hŷn. Bydd y digwyddiadau hyn yn dangos yr adnoddau hyn a'r cyfleoedd dysgu allweddol o'u rhaglenni eiriolaeth canser. Byddwch yn gadael gyda syniadau a dulliau i'ch helpu i gael cipolwg gwell ar y prif faterion mae pobl hŷn a effeithiwyd gan ganser am i chi eu deall, i wella dealltwriaeth pobl broffesiynol a chomisiynwyr sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal am eiriolaeth ac edrych ar botensial eiriolaeth ganser yn eich ardal.

Archebwch nawr

**Cynhadledd 2017 Be A Force for Change National Advocacy**
Dydd Iau 19 Hydref, NEC Birmingham

Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle, ewch at y ddolen isod:

http://www.katemercer-training.com/conference-2017/

## *Gwefannau Defnyddiol*

### Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru

Mae'r wefan hon yn cynnwys gwybodaeth am Raglen Eiriolaeth Edau Euraidd a'r Cylchlythyron Eiriolaeth.

Gwefan Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd

### Hwb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi gweithio gydag amryw o bartneriaid i ddatblygu cynllun dysgu a datblygu cenedlaethol er mwyn cefnogi rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith yn llawn. Mae'r Hyb Gwybodaeth a Dysgu'n cynnwys deunyddiau hyfforddi mewn sawl fformat i helpu gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol i roi'r Ddeddfwriaeth ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Cyngor Gwybodaeth Cymru

### Cyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim i unrhyw un mewn perthynas â'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r wefan yn rhoi gwybodaeth ddiweddaraf am ymgyrchu, polisïau a'r cyfryngau.

http://www.citizensadvice.org.uk/

## *Cyhoeddiadau Defnyddiol*

### Gwybodaeth bwysig am newidiadau i ffioedd Atwrneiaeth Arhosol / Atwrneiaeth barhaus

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi dosbarthu'r wybodaeth isod am leihau ffioedd AA/AB.

Hefyd, ceir dolen isod i ganllaw syml ar Atwrneiaeth Arhosol a gyhoeddwyd ar y cyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a all fod yn ddefnyddiol i chi, yn bersonol neu'n broffesiynol.

Canllaw hawdd i Atwrneiaeth Arhosol

**Coflyfr yr Ombwdsmon**

Mae Coflyfr yr Ombwdsmon nawr ar gael. Cliciwch ar y dolenni isod:

Cymraeg

Saesneg

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys crynodebau o adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon rhwng Ionawr 2017 a Mawrth 2017.

## *Llinell Gyngor rhad ac am ddim Age Cymru*

Gall llinell gyngor Age Cymru roi cyngor diduedd, rhad ac am ddim ar amrywiaeth o bynciau.

Efallai y bydd rhywun eisiau cyngor ynghylch faint ddylent dalu am ofal i aelod o'r teulu, neu am wybod a ydynt yn gymwys i gael Credyd Pensiwn ac eisiau help i'w hawlio?

Gall Age Cymru helpu gyda'r holl faterion hyn, a mwy. Ffoniwch ni heddiw ar: **08000 223 444**

**Cysylltwch â ni i...**

- **Danysgrifio i'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylw neu gwestiwn am yr erthyglau**
- **Os oes rhywbeth yr hoffech ei weld yn y cylchlythyr nesaf**

**E-bost ffion.jones@agecymru.org.uk**

**Rhif ffôn y Rhaglen Edau Euraidd 01352 706228**

**Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i addasu erthyglau a gyflwynir i'w cyhoeddi. Nid yw pob barn a fynegir yn y cylchlythyr hwn yn cyfateb i farn Age Cymru o anghenraid.**

**Derbynnir hysbysebion a mewnosodiadau gyda phob ewyllys da, ond nid yw Age Cymru yn eu cymeradwyo na'u hargymell trwy hynny.**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.

**Age Cymru,**
**Tŷ John Pathy,**
**13/14 Cwrt Neptune,**
**Ffordd Vanguard,**
**Caerdydd, CF24 5PJ**

**ffôn: 029 2043 1555**
**E-bost enquiries@agecymru.org.uk**
**www.agecymru.org.uk**

Rhif elusen gofrestredig: 1128436
Rhif cwmni cofrestredig: 6837284

© Age Cymru 2017